



Galwad am Gomisiwn

Ffi: £5,500

Ymateb: Prosiect celfyddydau cymunedol rhwng y cenedlaethau i greu gweithiau celf allanol i newid a chefnogi hunaniaeth cartref People Speak Up – Y Ffwrnes Fach, o gapel i ganolfan gelfyddydau, iechyd a lles.

Wedi'i ddylunio a'i gyflwyno gan People Speak Up ac wedi'i ariannu gan Gyngor Celfyddydau Cymru

Partneriaid y Prosiect: Rhwydwaith Amlddiwyllynnol Llanelli, Partneriaeth Gymunedol Llanelli, Cyngor Tref Llanelli

Am People Speak Up

Mae People Speak Up (PSU) yn sefydliad cymunedol cymdeithasol, celfyddydol, iechyd, iechyd meddwl a lles sy'n cysylltu pobl ac yn creu cymunedau iachach a gwydn trwy adrodd straeon, barddoniaeth lafar, ysgrifennu creadigol, gwirfoddoli, hyfforddi, a'r celfyddydau cyfranogol.

Rydym yn elusen gofrestredig (1193117) wedi'i lleoli yn y Ffwrnes Fach, Canolfan Gelfyddydau, Iechyd a Lles Llanelli yng nghanol tref Llanelli ac yn gweithio ar draws De Cymru.

Cawn ein hariannu gan Gyngor Celfyddydau Cymru, ymddiriedolaethau a sefydliadau, a thrwy gomisiynau gan fyrddau iechyd ac awdurdodau lleol.

Darllenwch am PSU a'n prosiectau cyfredol: www.peoplespeakup.co.uk

Gwylwch fideo byr am bwy ydym ni a beth rydym yn ei wneud
<https://bit.ly/AboutPSU>

Gwybodaeth am y Prosiect:

Rydym wedi nodi bod pobl yn ein cymuned yn dal i adnabod ein canolfan fel capel gweithredol. Felly, bydd y prosiect hwn yn ein helpu i newid hunaniaeth y tir a'r waliau allanol a'r ffiniau trwy greu darn o gelf / gweithiau celf a fydd yn ail-adrodd stori'r adeilad. Rydym am chwalu rhwystrau i fynd i mewn i'r Ffwrnes Fach. Ni allwch weld i mewn i'r adeilad felly rydym am ddangos i bobl beth y gallant gymryd rhan ynddo trwy gynrychioli cyfleoedd ar gyfer ymgysylltu, ein gwerthoedd a'r hyn y gallwch ddisgwyl ei ganfod y tu mewn, ar flaen yr adeilad.



Gyda blaen trawiadol a llawn gwybodaeth, ein nod yw annog pobl sy'n mynd heibio i sylwi ar yr adeilad a chydabod nad yw'n cael ei ddefnyddio fel capel mwyach a bod byd o gyfle creadigol y tu mewn iddynt. Rydym hefyd am iddo fod yn ddathliad o amrywiaeth sy'n cynrychioli'r holl gyfranogwyr sy'n ymweld â PSU ac sydd wedi cyfrannu at greu'r teimlad o PSU fel cartref unedig.

Gwybodaeth Ymarferol:

- Cyflwyno 6 gweithdy yn Y Ffwrnes Fach, canolfan Celfyddyd Iechyd a Lles Llanelli gyda'n cymuned dros 6 phrosiect gwahanol rydym yn eu hwyluso. <https://peoplespeakup.co.uk/schedule-from-april-2024.html> Hwyluso sesiynau creadigol a fydd yn eich cefnogi chi fel artist/iaid i ddylunio'r gwaith celf/gweithiau celf ar gyfer tu allan yr adeilad.
- Cyflwyno'r dyluniadau i'r gymuned a thîm creadigol PSU, bydd angen cymeradwyaeth derfynol gan Gyngor Sir Caerfyrddin a Chyfarwyddwr Artistig PSU.
- Gosod y gwaith celf/gweithiau celf

Amserlen: Haf 2024

Cynllunio – Gorffennaf

Cyflwyno – Awst, Medi

Gosod y gwaith celf wedi'i gwblhau erbyn diwedd Medi

Beth nesaf:

Anfonwch CV a chynnig prosiect (dim mwy na 2 ochr A4) neu fideo at:

eshaw@peoplespeakup.co.uk neu ffoniwch 07972651920 gydag unrhyw gwestiynau.

Dyddiad cau ar gyfer ceisiadau: 9yb Dydd Mercher 10 Gorffennaf 2024.